| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 14 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2026/27 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod 2026/27.

2. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 20 Mai 2026, ystyriwyd yr eitemau posib i'w craffu yn ystod 2026/27.

3. Darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau'r pwyllgor. Roedd y rhestr o eitemau yn cynnwys:

   - eitemau oedd wedi eu hawgrymu yng nghyfarfodydd cyswllt y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol.
   - eitemau a graffwyd a oedd angen dilyniant.
   - eitem a awgrymwyd fel eitem posib gan aelod o'r pwyllgor.

4. Blaenoriaethwyd eitemau yn y gweithdy gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

5. Gofynnwyd i aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth flaenoriaethu eitemau:

   - *A yw'r mater yn effeithio trigolion Gwynedd?*
   - *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
   - *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
   - *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
   - *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

6. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Ni lwyddwyd i wneud hyn ar gyfer bob cyfarfod. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

7. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.

8. Mae'r eitem 'Presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd' wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod 18 Chwefror 2027. Bu trafodaeth yn y gweithdy am y posibilrwydd o gynnal grŵp tasg a gorffen er mwyn craffu ar faterion yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial ac ymddygiad plant a phobl ifanc mewn ysgolion. Bydd trafodaeth yn cael ei gynnal yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 3 Medi 2026 er mwyn ystyried yn fanylach beth yn union sydd angen ei graffu.

9. Nodir yr eitem 'Cynllun Gweithredu Strategaeth Economi Gwynedd' fel eitem i'w graffu pan yn amserol.

10. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion yn codi wrth graffu perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

11. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27.**

**ATODIAD**

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2026/27

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **18/6/26** | • Polisi a Gweithdrefn Canu'r Gloch i Aelodau | Blaengraffu / Sicrhau trefn glir a chadarn |
| | • Cludiant Addysg | Blaengraffu / Gorwariant yn y maes |
| | • Adroddiad Perfformiad Addysg | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Economi a Chymuned | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **14/7/26** | • Adroddiad Perfformiad Cyllid | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion | Ymchwiliad Craffu |
| | • Bwrlwm Canol Tref | Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| | | |
| **8/10/26** | • Cynllun Ymateb i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | • Cynllun Diwylliant Gwynedd | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| | • Strategaeth 5 mlynedd Gwaith Ieuenctid | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Cyllido Addysg Uwchradd | Effaith cyllido ar addysgu mewn Ysgolion Uwchradd |
| | | |
| **10/12/26** | • Anghenion Dysgu Ychwanegol | Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol |
| | • Adroddiad Perfformiad Addysg | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Economi a Chymuned | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **18/2/27** | • Adroddiad Perfformiad Cyllid | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 17 Hydref 2024 |
| | | |
| **16/3/27** | • Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion | Gweithrediad y trefniadau newydd |
| | • Cefnogi Busnesau a Mentrau Cymunedol | Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |

**Eitem i'w ychwanegu pan yn amserol** - Cynllun Gweithredu Strategaeth Economi Gwynedd